# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION CYFARFOD Y PANEL ARIANNU ALLANOL

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD MERCHER, 7 RHAGFYR 2016 AM 3.00 PM

**YN BRESENNOL**: Bu'r CynghoryddR C Stewart (Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** | **Y Cynghorydd(wyr)** |
|---|---|---|
| M C Child | R Francis-Davies | C E Lloyd |
| J A Raynor | C Richards | |

**Swyddog(ion)**

| | |
|---|---|
| Claire Lewis | Rheolwr Datblygu Achos Busnes Prosiect Ysgol |
| Allison Lowe | Swyddog Gwasanaethau Democrataidd |
| Sandie Richards | Prif Gyfreithiwr |
| Elliott Williams | Swyddog Rhaglen Cyllid Ewropeaidd ac Allanol |
| Gaynor Winsor | Cyfrifydd |

**Ymddiheuriadau am absenoldeb**
Y Cynghorwyr: W. Evans, J. E. C. Harris, D. H. Hopkins a A. S. Lewis
Swyddog: S. Martin

### 28 DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL.

Yn unol â'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

### 29 COFNODION:

**PENDERFYNWYD** y dylid cymeradwyo cofnodion cyfarfodydd y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2016 a'r Panel Ariannu Allanol Arbennig a gynhaliwyd ar 2 Tachwedd 2016 fel cofnod cywir yn amodol ar y diwygiad canlynol:

Y dylid ychwanegu Sandie Richards, Prif Gyfreithiwr, at y bobl a oedd yn bresennol ar gyfer cyfarfod y Panel Ariannu Allanol a gynhaliwyd ar 5 Hydref 2016.

### 30 RHAGLEN GYFALAF DECHRAU'N DEG 2016-2017.

Cyflwynodd y Rheolwr Datblygu Achos Busnes Prosiect Ysgol adroddiad i amlinellu'r cynnig cyfalaf a gynhwyswyd yn y cais cyllid ychwanegol a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ynghylch Rhaglen Dechrau'n Deg 2016/17.

**PENDERFYNWYD** y dylid cynnwys y cynnig fel y nodwyd, ynghyd â'r goblygiadau ariannol, yn y rhaglen gyfalaf, gan ragweld y bydd Llywodraeth Cymru'n cymeradwyo'r cynnig.

31 **CRONFA TRAWSNEWID GWEITHREDU YN Y GYMUNED.**

Cyflwynodd y Swyddog Rhaglen Ewropeaidd adroddiad ynghylch dyfodol y Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned (CATF) ar ran y Cydlynydd Perthynas Sector Gwirfoddol.

Roedd yr adroddiad wedi'i ohirio o gyfarfod y Panel Ariannu Allanol Arbennig ar 2 Tachwedd 2016.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r Gronfa Trawsnewid Gweithredu yn y Gymuned yn parhau, yn amodol ar gymeradwyaeth gyllidebol.

32 **GWAHARDD Y CYHOEDD.**

Gofynnwyd i'r pwyllgor wahardd y cyhoedd o'r cyfarfod er mwyn iddo ystyried yr eitem fusnes a nodwyd yn argymhellion yr adroddiad ar y sail ei fod yn debygol o ddatgelu gwybodaeth eithriedig fel a nodwyd ym mharagraff gwahardd 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972 fel y'i diwygiwyd gan Orchymyn Llywodraeth Leol (Mynediad i Wybodaeth) (Amrywiad) (Cymru) 2007 mewn perthynas ag eitemau busnes a nodir yn yr adroddiad.

Ystyriodd y pwyllgor Brawf Budd y Cyhoedd wrth benderfynu a ddylid gwahardd y cyhoedd o'r cyfarfod ar gyfer yr eitem fusnes lle roedd Prawf Budd y Cyhoedd yn berthnasol fel a nodwyd yn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD** y dylid gwahardd y cyhoedd ar gyfer yr eitem fusnes ganlynol.

**(SESIWN GAEËDIG)**

33 **TROSOLWG O'R CEISIADAU PRESENNOL A'R RHAI SYDD AR DDOD AM ARIAN EWROPEAIDD AC ALLANOL.**

Cyflwynodd y Swyddog Cyllid Ewropeaidd adroddiad a roddodd yr wybodaeth ddiweddaraf am geisiadau presennol a chynlluniedig am gyllid Ewropeaidd a cheisiadau eraill am gyllid allanol.

Cafodd y swyddogion eu canmol gan Aelod y Cabinet dros Fenter, Datblygu ac Adfywio ar gyfer y modd blaengar roeddent wedi archwilio'r holl opsiynau a ffrydiau ariannu.

**PENDERFYNWYD AR Y CANLYNOL:**

1) Y dylid nodi'r diweddaraf ar brosiectau yn adrannau 2 i 9;
2) Y dylid cefnogi cynigion i Croeso Cymru a Cadw i adfer Tŷ Injan Musgrave ac y dylid galw cyfarfodydd y Panel Ariannu Allanol Arbennig i gymeradwyo cynigion ariannu brys y mae angen eu cyflwyno;
3) Dylai'r panel gefnogi datblygu a chyflwyno cais am gyllid i'r Gronfa Cymunedau Arfordirol i gyflwyno Mynediad i Arfordir Bae Abertawe ar gyfer Prosiect Buddsoddiad Busnes;

4) Dylai'r panel gefnogi cynigion ariannu gan Lywodraeth Cymru ar gyfer cynlluniau a gynigir dan Raglen Canol Dinas Abertawe Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid.

Daeth y cyfarfod I ben am 3.25 pm

**CADEIRYDD**